**Gwasanaeth Democrataidd / Democractic Service**
Swyddfa'r Cyngor / Council Office
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI

# ABERDYFI CONSULTATIVE HARBOUR COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30 a.m. DYDD MERCHER, 12 MAWRTH 2014**

**10.30 a.m. WEDNESDAY, 12 MARCH 2014**

Lleoliad / Location

**NEUADD DYFI**

**ABERDYFI**

**Gwynedd**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 04.03.14

**AELODAETH / MEMBERSHIP**

| | |
|---|---|
| Cyng./Cllr. Anne Lloyd Jones<br>Cyng./Cllr. Mike Stevens | Aelodau Tywyn o Gyngor Gwynedd<br>Members of Tywyn of Gwynedd Council |
| Cyng./Cllr. Dewi Owen | Aelod Aberdyfi o Gyngor Gwynedd<br>Aberdyfi Member of Gwynedd Council |
| Cyng./Cllr. Megan Reynolds<br>Cyng./Cllr. D. Richardson<br>Cyng./Cllr. Brian Bates | Aelodau Cyngor Cymuned Aberdyfi<br>Members of Aberdyfi Community Council |
| Mr Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion<br>Member of the Cardigan Bay Fisheries Association |
| Mr Al Crisp | Aelod o Outward Bound Wales<br>Member of Outward Bound Wales |
| Mr W. Bracewell | Aelod o Bartneriaeth Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Partnership |
| Mr Paul Fowles | Aelod o Siambr Fasnach Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Chamber of Trade |
| Cyng./Cllr. D. Williams | Aelod o Bwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Advertising & Improvements Committee |
| Mr J Eddington | Aelod o Glwb Rhwyfo Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Rowing Club |
| Mr Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi<br>Member of the Dyfi Yacht Club |
| Mr N Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi<br>Member of Aberdyfi Boat Club |

**Sylwedyddion / Observers:**

| | |
|---|---|
| Dr J Jones Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog / Porthmadog Consultative Harbour Committee |
| Y Cyng. / Cllr. Gethin G Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw / Barmouth Habour Consultative Committee |
| Y Cyng. / Cllr. R J Wright | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli / Pwllheli Consultative Harbour Committee |

**R H A G L E N**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgan Cysylltiad Personol**

3. **Cofnodion**

I dderbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 24 Medi 2013.

(Copi'n amgaeedig - Papur Gwyn)

5. **Adroddiad y Swyddog Morwrol**

I dderbyn ac ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies.

(Copi'n amgaeedig - Papur Gwyrdd)

6. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar ddydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014.

# AG E N D A

1. **Apologies**

2 **Declaration of Personal Connection**

3. **Minutes**

To receive and note the minutes of a meeting of the Aberdyfi Harbour Advisory Committee held on the 24 September 2013.

(Copy enclosed - White Paper)

5. **Report by the Maritime Officer**

To receive and consider a report by the Maritime Officer, Mr Barry Davies.

(Copy enclosed - Green Paper)

6. **Date of Next Meeting**

To note that the next meeting of the Aberdyfi Harbour Advisory Committee will be held on Tuesday, 11 November 2014.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 24 Medi 2013 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Dewi Owen, Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, Cyng. David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Josh Cooper (Clwb Hwylio Dyfi), Mrs Rhian Cooper (Clwb Hwylio Dyfi),Mr Huw Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion, Mr Paul Fowles (Siambr Fasnach Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llþr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Harbyrau |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John Wynn Jones, Mike Stevens, (Cyngor Gwynedd), Megan Reynolds (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Dewi Owen i'r Gadair am y flwyddyn 2013-14.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013-14.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 5 Mawrth 2013.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r cywiriadau isod:**

**(a) Diwygio'r bedwaredd linell yn y pumed paragraff ym mhwynt (vi) ar dudalen 6 i ddarllen "Ni ellir cau'r bwlch rhwng "Canolfan Dyfi" ac adeilad y Bad Achub ………**

**(b) Diwygio'r dyddiad yn y llinell olaf ond un o'r bumed paragraff ym mhwynt (vi) ar dudalen 6 i ddarllen "1993" yn hytrach na 1963.**

## 4.1 MATERION YN CODI O’R COFNODION

Cyfeiriodd y Cyng. Richardson at:

(a) Pwynt 4 (A) (i) Mordwyo ac Angorfeydd gan nodi bod gwelliant aruthrol mewn gweledigaeth yn dilyn rhoi sylw i’r cymhorthion mordwyo a bod Bwi y Tramwy yn llawer iawn mwy amlwg.

(b) Pwynt (ix) ar dudalen 7 - bod angen ymdrin â’r mater hwn yn ddi-oed sef tynnu sylw at beryglon y wal ar frig llithrfa May Bank.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi (a) uchod a gofyn i’r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymdrin â phwynt (b).**

## 5. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

### (A) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau

(i) Cyfeiriwyd at adroddiad yr Aelod Cabinet a gyflwynwyd i’r Cabinet ar 17 Medi 2013 i ddiweddaru trefniadau gweithredu ac atebolrwydd dyletswyddau rheoli Harbyrau’r Sir a fydd dan reolaeth y Cyngor yn unol â Chod Diogelwch Morwrol.

(ii) Gosododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y cyd-destun drwy nodi bod y Cod Diogelwch Morwrol yn berthnasol i bob Awdurdod Harbwr ac yn gosod safon genedlaethol ar gyfer elfennau diogelwch morwrol oddi fewn porthladdoedd er budd diogelwch rhai sydd yn gweithio a defnyddio’r porthladdoedd; cychod; teithwyr a’r amgylchedd. Cyfeiria’r Cod at ddyletswyddau penodol ac yn sgil newid trefniadau llywodraethu’r Cyngor o Fwrdd i Gabinet y llynedd rhaid sicrhau bod trefniadau’r Cyngor yn unol â gofynion y Cod. Tynnwyd sylw at y tair elfen berthnasol o’r Cod sef atebolrwydd am ddiogelwch morwrol; dogfennau a’r Pwyllgorau Harbwr. O safbwynt atebolrwydd am ddiogelwch morwrol noda’r canllawiau bod Deilydd Dyletswydd ar ran yr Awdurdod Harbwr yn atebol am reoli gweithgareddau o fewn yr Harbwr ac argymhellwyd mai’r Cabinet fyddai’n ysgwyddo’r cyfrifoldeb. Roedd yn sylfaenol i adnabod “Person Dynodedig” allanol i gymryd gorolwg annibynnol bod y gyfundrefn rheoli diogelwch yn gweithredu’n effeithiol ac i archwilio cydymffurfiad yr awdurdod â’r Côd. Rhagwelir y byddai’r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn cyflwyno adroddiad blynyddol i’r Cabinet ar berfformiad a gweithgareddau’r gwasanaeth.

(iii) Noda’r Cod yr angen i ymgynghori gyda phartïon priodol ynglŷn â gweithgareddau’r Harbwr ac ystyriwyd bod cyfle i ddiweddaru trefniadau'r Pwyllgorau Harbwr ac i fabwysiadu cyfansoddiad safonol a meysydd gwaith yn unol â chanllawiau’r cod.

(iv) Cyfeiriwyd a thywyswyd yr Aelodau drwy gylch gorchwyl penodol i’r Pwyllgorau Harbwr presennol a oedd yn cyfarch Aelodaeth, Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd, Cworwm a Phleidleisio, Amlder Cyfarfodydd a swyddogaethau’r Pwyllgor.

(v) Pwysleisiwyd y byddai’n cymryd amser i’r trefniadau uchod ddod i rym ond roedd yn fodd o sicrhau cysondeb ar draws Pwyllgorau Harbwr y Sir.

(vi) Yn ystod y drafodaeth ddilynol ynglŷn â'r cylch gorchwyl, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Pryder ac anfodlonrwydd ynglŷn â'r awgrym i leihau nifer cynrychiolaeth o'r Cynghorau Cymuned / Tref ar aelodaeth y Pwyllgor Harbwr h.y. un aelod yn hytrach na thri fel sy'n bodoli'n bresennol
- Bod Cynghorwyr Cymuned wedi eu hethol i gynrychioli eu hetholwyr ac y byddir yn colli'r cysylltiad â dylanwad lleol
- Bod materion eraill lleol o ddiddordeb megis traethau ac y dylid sicrhau nad yw'r materion hyn yn cael eu colli gan mai materion o'r fath sydd yn denu ymwelwyr i Aberdyfi
- Drwy leihau cynrychiolaeth ar y Pwyllgor gellid colli unigolion sydd â phrofiad eang yn y maes
- Dylid sicrhau bod y mudiadau / cyrff defnyddwyr yr Harbwr yn rhai 'bona fide' gan ofyn iddynt gyflwyno cofnodion swyddogol o'u Cyfarfodydd Blynyddol a chyfansoddiad y mudiad / corff
- Pwysigrwydd i'r Bad Achub gael cynrychiolaeth ar y Pwyllgor oherwydd bod gan yr aelodau hynny flynyddoedd o brofiad

(vii) Mewn ymateb i'r pryderon uchod nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned a'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Tra'n derbyn y sylwadau uchod, pwysleisiwyd yr angen i gael cysondeb mewn gweithrediad y Pwyllgorau hyn oherwydd y posibilrwydd iddynt fynd yn rhy fawr
- Cydnabuwyd pwysigrwydd i gael Aelod o'r Cyngor Cymuned / Tref yn bresennol ond byddai modd ethol eilydd os nad yw Aelod yn gallu bod yn bresennol
- Ni fyddai'r Pwyllgor Harbwr yn gaeedig a bod modd i Aelodau eraill o'r Cyngor Cymuned neu'r cyhoedd fynychu i wrando ar y trafodaethau ac adrodd i'r mudiad / corff ar y materion a drafodwyd yn y Pwyllgor
- O safbwynt materion eraill i'w trafod yn y Pwyllgor Harbwr, pwysleiswyd mai diogelwch a rheolaeth yr Harbwr fyddai cylch gorchwyl y pwyllgorau a bod modd trafod materion ymylol sydd yn bwysig o ran budd economaidd mewn cyfarfodydd eraill megis Fforymau Ardal
- Ni ragwelir unrhyw ostyngiad yn ansawdd y gwasanaeth i'r Harbwr
- Rhaid cofio mai Pwyllgorau Ymgynghorol ydynt heb hawliau i wneud penderfyniadau ond yn hytrach gwneud argymhellion i'r Cabinet
- Tra'n cydnabod bod gan sawl unigolyn brofiad helaeth o weithgareddau'r dŵr, bod rhai o'r sefydliadau sydd eisoes â chynrychiolaeth ar y Pwyllgor yn debyg i'w gilydd o ran gweithgareddau ac efallai y dylent ystyried ymuno o dan un corff fel petai
- Awgrymwyd i'r Aelodau ystyried yr Aelodaeth o rŵan hyd at y cyfarfod nesaf a chadarnhau cynrhychiolwyr; syniadau a trefniadau bryd hynny

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod Cabinet:**

**(a) ail-ystyried Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr i gael mwy nag un cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned / Tref i wasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi**
**(b) sicrhau bod y gwahanol sefydliadau / cyrff defnyddwyr yr Harbwr a wahoddir yn gyfansoddiadol 'bona fide' gan ofyn iddynt gyflwyno cofnodion cymwys o'u Cyfarfodydd Blynyddol a chopi o gyfansoddiad fel maen prawf**
**(c) sicrhau bod y Bad Achub yn un o'r saith mudiad / cyrff uchod**

**(B) Cod Diogelwch Harbyrau**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod copi o'r Cod Diogelwch wedi ei anfon i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol a chyflwynwyd iddynt yn ystod y cyfarfod Gynllun Gweithredu Gwynedd gan nodi mai cynllun generic ydoedd ar gyfer Gwynedd gyfan ac y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig ac yn cael ei archwilio gan arbenigwr annibynnol yn unol a gofynion y Cod. Nododd ymhellach nad oedd y Cod Diogelwch yn statudol ond ei fod yn ymarferiad da iawn gyda'r un canllawiau yn bodoli ar unrhyw Harbwr ar hyd a lled y wlad ac felly yn rhoi fframwaith cadarn ar gyfer dyletswyddau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(C) Mordwyo ac Angorfeydd**

(i) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei bod wedi bod yn haf prysur iawn gyda'r tywydd yn ffafriol a chafwyd adroddiad ganddo o ddau ddigwyddiad un yn Nhraeth y Waren a'r llall yn Harbwr Porthmadog a gododd bryderon ymysg y cyhoedd. Nodwyd ymhellach bod y Cyngor drwy'r Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau a'r Aelodau lleol yn arwain ar hyn mewn ffordd bositif drwy reolau a fu hefyd wedi ei mabwysiadu gan Gyngor Ynys Môn a Chyngor Chonwy, gan un awdurdod yn Lloegr ac un yn Ne Cymru. Yn anffodus, oherwydd cymaint o wrthwynebiadau, ni wnaiff y llywodraeth gefnogi unrhyw ofyn am gymhwyster ar gyfer gyrru badau pwer a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer pleser. Fodd bynnag, wrth ystyried y nifer helaeth sydd yn mordwyo ar yr arfordir, ychydig iawn o ddamweiniau sydd wedi digwydd heblaw am un trychineb yn Padstow lle bu i gwch fynd allan o reolaeth. Yn deillio o'r ddamwain honno, mae'r Gwasanaeth yn parhau i bwysleisio bod y "cortyn diffodd injan" yn hanfodol a chyfeiriwyd yn benodol am yr angen i bob defnyddiwr arwyddo'r Ffurflen Cofrestru Badau Dŵr Personol a Chwch Pŵer sydd yn cadarnhau y byddent yn cydymffurfio a rheoliadau Cyngor Gwynedd tra yn mordwyo yn y Sir. Roedd yn anodd erlyn unrhyw unigolyn o dan Is-ddeddfau'r Harbwr neu Is-ddeddfau'r Traethau oherwydd nid yw Bad Dwr Personol yn cael ei ddiffinio fel cwch ac o'r herwydd nid ydynt yn gorfod cydymffurfio hefo'r rheoliadau. Serch hynny, mae gofyn i dynhau'r rheolau'r gorau gellir.

(ii) Nododd Aelod bod angen i lywodraeth leol roi pwysau ar lywodraeth ganolog i dynhau rheoliadau ar berchnogion Bad Dwr Personol. Dylid pwyso ar feddu ar gymhwyster priodol i'w gyrru oherwydd yn aml nid oes gan y perchnogion unrhyw syniad o'u rheoli ar y dŵr na pharch ychwaith at ddefnyddwyr eraill y dŵr.

(iii) Gwelwyd gwelliant a buddsoddiad o oddeutu £7,500 eto eleni ar y cymhorthion mordwyo. Tra'n derbyn bod cymhorthydd y Traethell oddi ar ei safle nodwyd bod cyfarwyddyd i'w ail-leoli gyda rhybudd wedi mynd allan i forwyr. Cynhelir cyfarfod yn fuan gyda'r contractwr i drafod amserlen ar gyfer eu cynnal. Yn dilyn archwiliad gan Dŷ'r Drindod, cadarnhawyd y byddai y Cymhorthydd Tramwy yn cael ei adnewyddu yn ystod y gaeaf.

(iv) Ychwanegodd y Swyddog Morwrol Harbyrau y bydd golau o ansawdd uwch yn cael ei osod ar Fwi'r Tramwy a bod caniatâd wedi ei dderbyn i oleuo bwi rhif 11. Yn sgil hyn fe fydd pob un o'r bwiau wedi eu goleuo erbyn 2014.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(CH) Ystadegau Morwrol**

(i) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod:

- Cyfanswm Badau Dŵr Personol wedi cofrestru

- Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
- Rhestr o Enwau a hyd / dyfnder y cychod pŵer neu hwylio

Gwelwyd o’r ystadegau bod gostyngiad yn nifer o gychod yn Aberdyfi eleni ond prysurwyd i nodi bod hyn yn dueddiad ymhob Harbwr yn enwedig Hafan Pwllheli gyda 75 o lefydd gwag ac sydd yn adlewyrchiad o’r sefyllfa economaidd yn hytrach nac ansawdd yr Harbyrau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(D) Cyllidebau Harbyrau**

(i) Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy adroddiad cyllidol yr Harbwr 2012-13 ynghyd ag amcangyfrif ar gyfer 2013-14 gan nodi bod cyfanswm gwariant rhedeg yr Harbwr yn £77,858 gyda’r gwir wariant yn £63,007.86. O safbwynt incwm nodwyd bod cyfanswm o £37,157 wedi ei bennu i’r Harbwr ac £30,846.01 wedi ei gasglu mewn incwm a olygai lleihad o £9,853.99. Er bod y sefyllfa gyllidol yn Aberdyfi yn eithaf positif roedd gorwariant o oddeutu £18,000 yn Harbwr Abermaw. Byddai’n rhaid edrych ar leihad yn y gwariant am weddill y flwyddyn oni bai ei fod yn wariant angenrheidiol. Rhagwelir i gynyddu ffioedd a thaliadau oddeutu 2% - 2.5%. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gydag Asiantaeth y Goron ynglŷn â chodi ffi ar bob un o’r angorfeydd sydd gan yr awdurdod ac efallai ni fydd dewis ond i’w basio ymlaen i’r defnyddwyr.

(ii) Yn wyneb y ffaith y byddir yn debygol iawn o godi ffioedd flwyddyn nesaf, awgrymwyd tybed a fyddai’n syniad da i’r Gwasanaeth fod yn rhagweithiol drwy hysbysebu bod oddeutu 20/30 o angorfeydd ar gael yn Aberdyfi mewn cylchgronau hwylio a fyddai’n fodd o gynyddu’r incwm.

(iii) Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned wrth ategu’r sylw rhaid cofio bod gweithgareddau’r Harbwr yn rhai masnachol ond bod lle i barhau i farchnata. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd cyllid penodol ar gael i farchnata a’i fod o’r farn y byddai’n fwy effeithiol i gadw’r ffioedd i lawr er mwyn cynyddu’r twf yn y farchnad o ystyried costau tanwydd, a.y.b. a bod pob Harbwr ledled y wlad yn brwydro’n galed i lenwi angorfeydd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(DD) Digwyddiadau**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod ansawdd dŵr ymdrochi yn bwysig iawn o ran derbyn Gwobrau Traeth a phrofwyd problemau yn ystod y flwyddyn ond byddir yn parhau i geisio goresgyn y rhain. Rhoddwyd rhybudd i fyny yn 2013 ynghyd ag un methiant a oedd yn cael ei ragweld yn yr haf o ganlyniad i lefelau uchel o E-coli a’r tebygolrwydd ydyw, oherwydd canllawiau mwy llym o gyrraedd targedau yn unol â’r Gyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig, y bydd yn effeithio ar ganlyniadau 2015. Fodd bynnag, roedd ansawdd dŵr ymdrochi yn Nhraeth y Fynwent yn cyrraedd safon uchel pob tro ac awgrymwyd y byddai’n syniad i’w gynnwys fel ardal ddynodedig ar gyfer ymdrochi a thynnu dŵr ardal yr Harbwr allan er mwyn cael canlyniadau positif. Awgrymwyd ymhellach trafod hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol gan wahodd swyddogion o Gyfoeth Naturiol Cymru i’r cyfarfod

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod a thrafod y mater ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth 2014.**

**(E) Consesiynau a Gwelliannau**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod erthygl ar farchnata Harbwr Aberdyfi ac Abermaw wedi ymddangos yng nghylchgrawn “Cruising Anglesey”.
(ii) Cynhelir cyfarfod gyda swyddogion perthnasol yn dilyn cyfarfod o’r Pwyllgor Ymgynghorol hwn i drafod a yw strwythur y lanfa yn ddigon cadarn i gymryd craen i’r pysgotwyr.
(iii) Ychwanegodd Mr Huw Evans, Cynrychiolydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion, bod pysgotwyr Aberdyfi wedi brwydro dros y blynyddoedd i lanio eu dalfa ar y lanfa ac y byddai’r posibilrwydd o sefydlu’r craen yn gwella’r cyfleusterau iddynt.
(iv) Ni ragwelwyd unrhyw wrthwynebiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol cyn belled â bod y strwythur y cei yn gallu cymryd y craen a’i fod yn ddiogel
(v) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chaniatâd cynllunio i osod y craen, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ni ragwelir y byddir yn gorfod cyflwyno cais cynllunio ond byddir yn ymdrin â’r cais yn unol â Gorchymyn Grym yr Harbwr (Harbour Empowerment Order). Roedd arolwg topograffig a bathymetrig wedi ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd trafodaethau pellach ynghylch cais cynllunio am y wal a’r pontŵn a deallir na fyddai gradd ramp y pontwn yn gallu cydymffurfio â rheolau anabledd.
(vi) Bod arian wedi ei glustnodi ar gyfer cyflwyno adroddiad pellach ar gyflwr Pont Bryn Llestair i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(F) Diogelwch Offer Morol**

Adroddodd y Swyddog Morwrol Harbyrau bod PCSO Paul Duggan yn gyfrifol am faterion morol a phwysleisiwyd dylai Aelodau annog pob morwr i gofrestru eu heiddo gyda’r Heddlu. .

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**(FF) Staff Harbwr**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd contract Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi yn dod i ben ddiwedd yr wythnos a hyderir y gellir parhau gyda’r un trefniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Trafodir hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.
(ii) Er yr adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Ymgynghorol y byddai Mr Ken Fitzpatrick yn ymddeol mis Awst, roedd yn parhau i weithio i’r Cyngor tan y Nadolig.
(iii) Cyflwynwyd rhaglen waith gan yr Harbwr Feistr o’r dyletswyddau i’w cyflawni yn ystod tymor y gaeaf.
(iv) Cadarnhawyd y byddir yn tynnu bwi'r Tramwy allan o’r dŵr ar 21 Hydref 2013.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi’r uchod.**

**6. MATERION I’W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU’R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

(a) Amlygwyd y materion isod fel rhai sydd angen sylw:

- Bod angen atgyweirio’r llwybr pren yn Nhraeth y Fynwent gan ei fod yn cael defnydd gan y cyhoedd

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y rhagwelir bod cost y gwaith sydd angen ei gwblhau i'w atgyweirio yn sylweddol a bod angen trafodaethau pellach ynglŷn â chyfrifoldeb amdano. Roedd angen cyfarfod gyda chynrychiolwyr o gyrff / sefydliadau perthnasol lleol yn Aberdyfi ynghyd a swyddogion o Gyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaeth Morwrol i drafod y ffordd orau ymlaen ac efallai rhannu'r costau atgyweirio. Addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trefnu hyn.

- A yw'n angenrheidiol i gwch y contractwr gael ei hangori yn ystod tymor yr haf

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trafod hefo'r Swyddog Morwrol Harbyrau, yr Harbwr Feistr a'r contractwr i adnabod lleoliad mwy addas i osgoi amharu gyda gweithgareddau eraill yr Harbwr.

(b) Gohebiaeth ynglŷn â phennu dirwyon ar berchnogion cychod sydd ddim yn gwisgo "cortyn diffodd injan".

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd adnoddau na'r awdurdod gan y Gwasanaeth i bennu dirwyon. Anogir defnyddwyr i sicrhau bod y cortyn diffodd injan wedi ei gysylltu'n gywir ac fe fuddsoddwyd mewn sticeri priodol i'w harddangos ar y llestr drwy'r amser.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**7. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

(a) Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar ddydd Mercher, 12 Mawrth 2014.

(b) Yn sgîl y ffaith bod y cyfarfod hwn wedi ei amserlennu ychydig yn gynharach na'r drefn arferol, gwnaed cais a fyddai modd ei gynnal yn ystod y drydedd neu'r bedwaredd wythnos ym mis Hydref fel bo modd i'r Gwasanaeth Morwrol fedru cynnwys manylion y cyllidebau, a.y.b. gyda'r rhaglen.

**Penderfynwyd (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gwneud cais i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd amserlennu cyfarfod yr Hydref flwyddyn nesaf i oddeutu'r drydedd neu'r bedwaredd wythnos.**

**CADEIRYDD.**

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*
# *Harbour Consultative Committee*

***12 Mawrth / March 2014***

***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.***

***Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.***

1. ***Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Harbour Consultative Committees***

   - Cadarnhau Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi 2014 / Confirmation of Aberdyfi Harbour Consultative Committee Terms of Reference 2014

   - Cadarnhau Cynrychiolaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi 2014/ Confirmation of Aberdyfi Harbour Consultative Committee Representatives 2014

   - Cadarnhau Materion Agenda Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Confirmation of Agenda Items for Harbour Consultative Committees

2. ***Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

   - Derbyn a cadarnhau sylwadau Aelodau ar ddrafft y Cod Diogelwch Harbyrau / Receive and confirm observations of Members on draft Port Marine Safety Code

3. ***Mordwyo ac Angorfeydd***
   ***Navigation and Moorings***

   - Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
   - Effaith Tywydd Garw / Effects of Adverse Weather
   - Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections
   - Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
   - Cynnal Angorfeydd 2014 / 2014 Mooring Maintenace
   - Gwaredu a Diogelwch Tan Gwyllt / Disposal and Safety of Pyrotechnics

4. ***Cyllidebau Harbyrau***
   ***Harbour Budgets***

   - Targedau Cyllideb Cyfredol 2013-14 / 2013-14 Budget Targets
   - Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
   - Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
   - Ffioedd Angorfeydd Arfaethedig 2014 Proposed Fees and Charges

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*
# *Harbour Consultative Committee*

***12 Mawrth / March 2014***

***5. Gwelliannau / Improvements***

- Wal y Cei – Adroddiad Ymgynghoriaeth Gwynedd / Quay Wall Development Progress report
- Diweddariad 'Davit' Lanfa Aberdyfi Davit Progress Report
- Datblygiad Adeilad y Bad Achub / RNLI Building Improvement
- Gwobr Traeth / Beach Award 2014
- Ansawdd Dwr Ymdrochi / Bathing Water Quality

***6. Staff Harbwr / Harbour Staff***

- Trefniadau staff Gwanwyn/Haf 2014 – Spring/Summer Staff Arrangements 2014
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gwanwyn / Spring Maintenance Works Programme

# CYNGOR GWYNEDD.

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR [ ]

**1. Enw**

Gelwir y Pwyllgor yn Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr [ ].

**2. Statws**

2.1 Sefydlir y Pwyllgor dan erthygl 6 Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998
*neu*
Sefydlir y Pwyllgor dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

2.2 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Gabinet y Cyngor. (Gan y Cabinet mae'r swyddogaeth a'r cyfrifoldeb o weithredu fel awdurdod harbwr).

**3. Aelodaeth.**

3.1 Aelodaeth y Pwyllgor fydd:

- Hyd at bedwar aelod lleol o Gyngor Gwynedd.
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n dal portffolio awdurdod harbwr.
- Un aelod o Gyngor Tref [ ]
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr.

3.2 Cabinet y Cyngor fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor a hynny yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodaeth bresennol y Pwyllgor a defnyddwyr yr harbwr.

3.3 Tymor aelodaeth aelodau'r Pwyllgor fydd:

- tan ddyddiad nesaf etholiad llywodraeth leol arferol
- tan y bydd yr aelod yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor
- tan y bydd yr aelod yn peidio â bod yn gynghorydd neu'n peidio â chynrychioli'r buddiant y cafodd ei benodi i'r Pwyllgor i'w chynrychioli
- tan y bydd y Cabinet yn penodi aelod arall yn ei (l)le)
  (pa un bynnag fo fyrraf).

**4. Cadeirydd ac Is-gadeirydd.**

4.1 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i gadeirio ei gyfarfodydd.

4.2 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor bydd y Pwyllgor yn ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i weithredu yn absenoldeb y Cadeirydd.

4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

**5. Cworwm a Phleidleisio.**

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

**6. Amlder Cyfarfodydd.**

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

**7. Cylch Gorchwyl.**

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.

7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.

**8. Trefn y cyfarfodydd.**

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.

## Chwyddiant ar Incwm 2014-15 - Cyllideb Rhan 1

| | Gwariant Col 18 £ | Gwariant Col 30 £ | Chwyddiant Gwariant Col 31 £ | Addasu £ | Gwariant Terf £ | Gwahaniaeth mewn £ £ | Gwahaniaeth mewn % % | Cynnydd £ yn y Targed Chwyddiant Col 31 iii £ | Targed Terfynol Col 34 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hafan** | 505,570 | 506,150 | 6,570 | | 512,720 | 7,150 | **1.41%** | -22,190.00 | -1,474,070.00 |
| **Traethau** | 392,100 | 392,390 | 5,570 | | 397,960 | 5,860 | **1.49%** | -2,780.00 | -204,100.00 |
| **Harbwr Pwllheli** | 33,120 | 33,260 | 620 | | 33,880 | 760 | **2.29%** | -1,260.00 | -78,680.00 |
| **Harbwr Porthmadog** | 72,540 | 72,740 | 980 | | 73,720 | 1,180 | **1.63%** | -1,240.00 | -78,800.00 |
| **Harbwr Abermaw** | 59,280 | 59,380 | 720 | | 60,100 | 820 | **1.38%** | -550.00 | -43,840.00 |
| **Harbwr Aberdyfi** | 72,460 | 72,680 | 1,040 | | 73,720 | 1,260 | **1.74%** | -460.00 | -33,070.00 |
| **Cyfanswm Harbyrau** | 237,400 | 238,060 | 3,360 | | 241,420 | 4,020 | **1.69%** | -3,510.00 | -234,390.00 |
| **Doc Fic** | 137,950 | 138,040 | 1,860 | | 139,900 | 1,950 | **1.41%** | -2,970.00 | -213,080.00 |
| **Padarn** | 197,380 | 197,820 | 1,790 | | 199,610 | 2,230 | **1.13%** | -2,150.00 | -170,730.00 |
| **Glynllifon** | 71,730 | 71,950 | 1,050 | | 73,000 | 1,270 | **1.77%** | -880.00 | -40,140.00 |

## *Harbwr Aberdyfi Harbour*
## *2014/15*

| **Eithrio T.A.W** | **2013-14 Ffi lleol Local Fee** | **2013-14 Eraill Other** | **2014-15 Ffi lleol Local Fee 2%** | **2014-15 Eraill Other 2%** | **Prices exclude V.A.T** |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr. Cychod Pleser | - | **26.93** | - | **27.47** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues. Pleasure Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob llestr | - | **4.85** | - | **4.95** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| | | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | - | **Fel rhestr lansio** | - | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain peiriant 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | -<br>**5.00**<br>**41.67** | -<br>**5.00**<br>**41.67** | -<br>-<br>- | -<br>**5.83**<br>**45.83** | **Small boats engine max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd | - | **5.00** | - | **5.00** | Gwynedd Council Harbour/Marina Clients |
| Pob Cwch Ymweld Arall | | **6.67** | | **6.67** | All Other Visiting Vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr fesul medr | **22.42** | **23.31** | - | **23.78** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | | |
| **Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr fesul medr y flwyddyn** | - | **23.31** | - | **23.78** | **Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter per annum** |
| Cychod masnachol yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | - | **52.02** | - | **53.06** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | | |
| Storio tymor yr haf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr yr wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi**<br>Storio tymor y gaeaf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm ffi 7 medr** | -<br><br>- | **5.33**<br><br>**3.35** | -<br><br>- | **5.44**<br><br>**3.42** | Summer Storage on Quay or other land **per meter per week or part of week 01 April – 30 September**<br>Winter Storage on Quay or other land **per metre per month or any part of month - 01 October – 31 March – min charge 7 meters.** |
| Rhent Llogi Angorfa Aberdyfi | - | **235.08** | - | **244.48** | Mooring Rental Aberdyfi |
| | | | | | |
| Diddymu cais angorfa | Gwelir isod | See below | Gwelir isod | See below | Cancellation of mooring application |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | Rheol 1/18 | Rule 1/18 | Rheol 1/18 | Rule 1/18 | Cancellation of mooring application. Discretionary. |

PROVISIONAL

PROVISIONAL

*Harbwr Abermaw Harbour*
*2014/15*

| Eithrio T.A.W | 2013-14 Ffi lleol Local Fee | 2013-14 Eraill Other | 2014-15 Ffi lleol Local Fee | 2014-15 Eraill Other | Prices exclude V.A.T |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr – Cychod Pleser | - | **26.93** | - | **27.47** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues - Pleasure Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob llestr | - | **4.85** | - | **4.95** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| | | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | - | **Fel rhestr lansio** | - | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain, peiriant 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | -<br>**5.00**<br>**41.67** | -<br>**5.00**<br>**41.67** | -<br>-<br>- | -<br>**5.83**<br>**45.83** | **Small boats engine, max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| **Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod** | | | | | **Visiting Vessels – Daily or part of day** |
| Cwch Ymweld | **5.00** | **5.00** | - | **5.00** | Visiting Vessels |
| | - | **6.67** | - | **6.67** | |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | **22.42** | **23.31** | - | **23.78** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | | |
| Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr | - | **23.31** | - | **23.78** | Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter |
| Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | - | **52.02** | - | **53.06** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | | |
| Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Pysgotwyr llawn amser<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol harbwr<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol eraill<br>Ffi cosb – Glanhau Ysbwriel<br>Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M² yr wythnos. | -<br>-<br>-<br>-<br>- | **282.67**<br>**304.56**<br>**326.31**<br>**91.21**<br>**4.16** | -<br>-<br>-<br>-<br>- | **288.32**<br>**310.65**<br>**358.94**<br>**91.21**<br>**4.16** | Harbour compound (per annum) – Full time fishermen<br>Harbour Compound (per annum) – Harbour commercial users<br>Harbour Compound (per annum) – Other commercial users.<br>Penalty Costs – Removal of refuse/<br>Surcharge – additional storage area outside of allocated plot - per M² per week. |
| | | | | | |
| Storio tymor yr haf ar diroedd harbwr y fedr. Ffi fesul wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi<br>Storio tymor y gaeaf ar dir yr harbwr y fedr. Ffi fesul y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm 7 medr | -<br>- | **5.33**<br>**5.38** | -<br>- | **5.44**<br>**5.49** | Summer Storage on harbour land per meter per week or part of week 01 April – 30 September<br>Winter Storage on harbour land per metre per month or any part of month 01 October – 31 March – min 7mtrs |
| Rhent llogi angorfa Abermaw | - | **235.08** | - | **244.48** | Mooring Rental Abermaw |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | Cancellation of mooring application. Discretionary |

PROVISIONAL

**Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Unit**

***FFIOEDD A THALIADAU CYFFREDINOL / GENERAL FEES AND CHARGES***

| Prisiau Eithrio TAW | 2013-14 | 2014-15 | Prices exclude VAT |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Rhaff cysylltiol a bwi codi | **25.00** | **25.00** | Link line and pickup buoy |
| | | | |
| Gosod rhaffau angorfeydd | **35.00** | **35.00** | Fitting of mooring lines |
| | | | |
| Ffi Cytundeb Angorfa Trefor (fesul llestr) | **38.50** | **39.27** | Trefor Mooring Fee Agreement (per vessel) |
| | | | |
| Trwydded Cychwyr - Pwer {Dim TAW} | **50.00** | **55.00** | Boatman's Licence - Power { No VAT } |
| Trwydded Perchennog - Pwer {Dim TAW} | **60.00** | **65.00** | Proprietor's Licence - Power { No VAT } |
| | | | |

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2014 – 31/03/2015**

**Ffioedd ddim yn cynnwys TAW / All fees exclusive of VAT**

| **Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach)** | **2013/14** | **2014/15** | **Renewal Fees (Small Permits)** |
|---|---|---|---|
| **Cofrestru Blynyddol** - Trwyddedau Cofrestru Bach yn unig | - | - | **Annual Re-registration** – Small Registration permits only |
| Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol yn unig | 20.83 | 20.83 | Postal applications to the Council Maritime Office only |
| Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 25.00 | 25.00 | In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| **Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Mawr a Bychan)** | | | **Renewal Fees (Large and Small Permits)** |
| **Cofrestru Blynyddol** - Rhifau Adnabod + Trwydded Cofrestru | - | - | **Annual Registration** – Identification Number + Registration Permits |
| Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol | 29.17 | 29.17 | Postal applications to the Council Maritime Office only |
| Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 33.33 | 33.33 | In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| **Ceisiadau Newydd** | | | **New Applications** |
| **Cofrestru Blynyddol** - Rhifau Adnabod + Trwydded Cofrestru | - | - | **Annual Registration** – Identification No + Registration Permits |
| Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol | 29.17 | 29.17 | Postal applications to the Council Maritime Office only |
| Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 33.33 | 33.33 | In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| **Trwyddedau Lansio** | | | **Launching Permit** |
| **Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol** | 8.33 | 8.33 | **Daily launch – General Slipways/Beaches** |
| **Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan** | - | 10.83 | **Daily launch – Morfa Bychan Beach** |
| **Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) – *cynnwys* ffi cofrestru** | - | - | **Annual Launching (1 April – 31 March) – *inclusive* of registration fee** |
| Ceisiadau post i'r Brif Swyddfa Forwrol | 108.33 | 108.33 | Postal applications to the Council Maritime Office |
| Ceisiadau mewn person yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Traethau | 125.00 | 125.00 | In person applications at the Harbour Offices or at the Beaches |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | | **Transfer / Replacement** |
| **Ceisiadau drwy'r post yn unig** - Prif Swyddfa Forwrol | - | - | **Postal application only** - Council Maritime Office |
| Trwyddedau Cofrestru yn unig (Trwyddedau Bach) | 20.83 | 20.83 | Registration permits only (Small Permits) |
| Rhifau Adnabod a Trwyddedau Cofrestru (Trwyddedau Mawr + Bach) | 29.17 | 29.17 | Identification Numbers and Registration Permits (Large + Small Permits) |
| **Cychod llai na 10 HP** | | | **Vessels under 10 HP** |
| **Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau mewn person yn unig** | - | - | **Annual Registration Fee - In person application only** |
| Harbyrau neu'r Traethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio | 16.67 | 16.67 | Harbour or Beaches, with vessel available for inspection |

| Aberdyfi | | |
|---|---|---|
| **Cyngor - Council:** Cyngor Gwynedd | | |
| Blwyddyn - Year: 2013 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Gwael** | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 2012 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2011 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2010 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2009 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2008 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2007 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Gwael** | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 2006 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Ardderchog** | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2005 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Ardderchog** | Water quality: Excellent |
| Blwyddyn - Year: 2004 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2003 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2002 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2001 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 2000 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1999 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1998 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1997 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1996 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Gwael** | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 1995 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Gwael** | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 1994 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1993 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Gwael** | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 1992 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Gwael** | Water quality: Poor |
| Blwyddyn - Year: 1991 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Da** | Water quality: Good |
| Blwyddyn - Year: 1990 | Ansawdd Dwr Ymdrochi: **Gwael** | Water quality: Poor |

## Tabl Data Table

| | Dyddiad Date | intestinal enterococci colonies/100ml | escherichia coli colonies/100ml | total coliform colonies/100ml | faecal coliform colonies/100ml | faecal streptococci colonies/100ml | Safon Classification |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 03/05/13 11:50:00 AM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 2 | 17/05/13 13:27:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 3 | 22/05/2013 14:40:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 4 | 30/05/2013 12:40:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 5 | 04/06/2013 12:30:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 6 | 10/06/2013 13:00:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 7 | 18/06/2013 10:15:00 AM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 8 | 27/06/2013 15:00:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 9 | 05/07/2013 14:10:00 PM | 18 | 136 | | | | Isafswm/Minimum |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | 14/07/2013 11:55:00 AM | <10 | 36 | | | | Uwch / Higher |
| 11 | 17/07/2013 14:10:00 PM | 390 | <10 | | | | Isafswm/Minimum |
| 12 | 26/07/2013 10:50:00 AM | <10 | 18 | | | | Uwch / Higher |
| 13 | 06/08/2013 15:35:00 PM | 290 | 2600 | | | | Methiant/Fail |
| 14 | 12/08/2013 10:50:00 AM | <10 | 118 | | | | Isafswm/Minimum |
| 15 | 22/08/2013 11:00:00 AM | 73 | 145 | | | | Isafswm/Minimum |
| 16 | 30/08/2013 12:55:00 PM | <10 | 610 | | | | Isafswm/Minimum |
| 17 | 8/09/2013 10:30:00 AM | 47 | 290 | | | | Isafswm/Minimum |
| 18 | 12/09/2013 15:00:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |
| 19 | 17/09/2013 12:00:00 PM | 456 | 855 | | | | Isafswm/Minimum |
| 20 | 24/09/2013 12:40:00 PM | <10 | <10 | | | | Uwch / Higher |